# Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
**COFNODION CYFARFOD MISOL MAWRTH 2021**
4 Mawrth 2021 7:00 yh drwy gyfrwng fideo

## 1. YMDDIHEURIADAU

Geraint Strello, Math Williams

**Presennol:** Dafydd Iwan, Math Williams, Emyr Williams, Erddyn Davies, Huw Orwig, Gruff Williams, Dylan Morgan, Huw Orwig

**Cadeirio:** Wynn Roberts

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Erddyn Davies a’r Cynghorydd Dylan Morgan fuddiant yn eitem 5.1 oherwydd eu bod yn aelodau o Glwb Pêl-droed Bontnewydd.

## 3. CADARNHAU COFNODION 4 Chwefror 2021

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 4 Chwefror 2021.

**Cynnig:** Erddyn Davies
**Eilio:** Dafydd Iwan

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

**Cae Capel, Bontnewydd**

Cafodd y Cynghorydd Peter Garlick gyfarfod efo Watkin Jones parthed y gwaith ar safle Cae Capel.

Mae nifer o faterion wedi cael eu codi, gan gynnwys ceir gweithwyr yn parcio ar y ffordd hyd at yr ysgol ym Montnewydd, a sbwriel ger y safle.

Ar hyn o bryd mae yna tua 30-40 o gontractwyr yn gweithio ar y safle, sydd yn achosi problem parcio, ond mae Watkin Jones wedi cytuno i fonitro'r sefyllfa gan geisio gwelliant.

Gobeithir y bydd y gwaith adeiladu yn dod i ben yn fuan, a'r tai cyntaf yn agor erbyn canol Ebrill, gan felly arwain at welliant yn y broblem barcio.

Mae Watkin Jones yn cydnabod fod yna sbwriel yn cael ei adael ar y ffordd ger y safle ac yn ymdrechu i wella'r broblem yma.

**Ffordd Rhos-Bach**

Mae'r arwydd sy'n rhybuddio cerbydau o Ben-y-bryn i gyffordd Rhos-bach bellach yn pwyntio'r ffordd iawn. Does dim marciau yn cael eu rhoi ar y llwybr beics bellach, ond mae'r hen farciau dal yno.

Cytunwyd i edrych ar a gwelliannau y gallasid ei wneud i ddiogelwch ar ffordd Rhos-bach unwaith i'r ffordd osgoi agor, gan y bydd patrwm trafnidiaeth a cherddwyr ar y ffordd wedi newid erbyn hynny.

**Cwynion am gyflwr eiddo yn Rhos-Bach**

Mae'r Cynghorydd Peter Garlick wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn dilyn derbyn nifer o gwynion gan drigolion lleol am gyflwr eiddo yn Rhos-bach. Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud y byddant yn danfon swyddog allan i edrych ar y sefyllfa. Disgwylir clywed ymhellach gan Gyngor Gwynedd.

**Cynllun Arafu Traffig Llanfaglan**

Parheir i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd o ran y cynllun arafu traffig yn Llanfaglan.

**Craciau a difrod tai oherwydd y ffordd osgoi**

Derbyniwyd cwyn gan drigolion sydd yn byw ger y ffordd osgoi ym Montnewydd, yn cwyno fod dŵr yn dod i mewn i'w tai drwy fframiau ffenestri a drysau, a chraciau yn waliau'r tŷ. Maent o'r farn fod hyn oherwydd gwaith y ffordd osgoi. Mae'r Cynghorydd Peter Garlick yn mynd i drafod ymhellach efo'r preswylwyr ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.

### 4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

**Adroddiad trysorydd pwyllgor y Ganolfan 4 Mawrth 2021 ar gyfer mis Chwefror.**

Rhoddion gan aelodau o'r gymuned a gasglwyd gan Peter Garlick ym mis Chwefror: £135
Rhoddion gan Elan Williams (stondin gacennau): £105
Rhoddion gan Elena Jones (stondin gacennau; ail waith): £80
Arian yn y banc: £1200 (a rhoddion £655 wedi cynilo)
Arian mewn llaw: £135
Dyled i'r cwmni nwy: £85 (yn codi eto)
Credid gan y cwmni trydan: £72
Incwm disgwyliedig y mis yma: £465 (mae Clwb Tŷ Wendy wedi gofyn i gael talu hanner y gost llogi arferol gan mai dim ond cwpwl o blant sy'n mynychu bob dydd ac, er bod hyn yn amlwg yn anghynaladwy, penderfynodd y cadeirydd a'r trysorydd dderbyn gan resymu bod angen eu cefnogi yn y tymor byr gan nad oes llawer o ddyfodol tymor hir heb fod y clwb plant ar ôl ysgol a hefyd y cylch meithrin yn ffynnu)
Gwariant disgwyliedig y mis yma: £550

**Cynnal a Chadw - Iechyd a Diogelwch:**

Gwnaed profion larwm tân, diffoddwyr a goleuadau argyfwng. Mae rhai o'r goleuadau argyfwng wedi methu er mai dim ond dwy flynedd oed ydynt. Mae aelod o'r pwyllgor yn trefnu'r gwaith angenrheidiol.

Mae ymdrech yn cael ei wneud i gynnal prawf offer nwy, ond ar hyn o bryd does neb yn fodlon neu heb amser.

Mynegodd y Cynghorydd Peter Garlick ddiolch am y rhoddion y mae wedi eu cael gan y cyhoedd ym Montnewydd tuag at Y Ganolfan.  Wedi hel eleni yn barod dros £800.

Derbyniwyd yr adroddiad.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Lês Cae Stanley

Mae'r Clwb Pêl-droed wedi penderfynu y byddai'n well ganddyn nhw gael les am y cae cyfan, ac felly cyfrifoldeb dros y cae cyfan yn hytrach na dim ond rhan ohono.

Mae'r Cadeirydd wrthi'n cael cynllun pwrpasol wedi ei lunio i'w ddanfon at y cyfreithwyr er mwyn medru llunio'r les.

Mae'r Clwb hefyd wedi trafod gosod llwybr nail ochr i'r cae i gefnogwyr fedru sefyll arno - unai concrid neu lechi mân, a hefyd gwneud gwaith i ddraenio'r cae yn well.

Awgrymodd y Cynghorydd Emyr Williams y gallasid cytuno mewn egwyddor fod y les yn cynnwys yr holl gae, ac unwaith i'r les gael ei llunio fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cymeradwyo'r les mewn egwyddor os nad oedd problem yn codi.

**Cynnig:** Emyr Williams
**Eilio:** Dafydd Iwan

## 5.2 Cwt Eglwys Sant Baglan

Cafodd y Cynghorydd Erddyn Davies sgwrs efo Ifor Williams am berchnogaeth cwt Eglwys Sant Baglan. Eglurodd Ifor Williams fod Eglwys Sant Baglan ym mherchnogaeth Cyfeillion Ffrindiau Eglwysi Di-ffrindiau, a bod y fynwent yn eiddo i Gyngor Gwynedd.

Mae'n debyg fod y fynwent a'r Eglwys wedi cael eu rhannu a bod y cwt wedi mynd i berchnogaeth y Cyngor cymuned wrth i berchnogaeth yr holl safle drosglwyddo o Gyngor Cymuned Llanfaglan i Gyngor Cymuned Bontnewydd flynyddoedd yn ôl.

Yn ôl cofnodion y Cyngor cymuned yn 2012, bu i'r Cyngor Cymuned a chwmni Griffiths dalu am ddrws newydd i'r cwt, ond ar y ddealltwriaeth nad oedd y Cyngor cymuned yn atebol mewn unrhyw ffordd am y cwt. Cadarnhawyd hyn gan gyn Clerc y Cyngor Cymuned ar y pryd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi fod cyflwr y cwt sydd yn sownd i wal y fynwent yn dirywio mewn cyflwr, efo'r tô yn disgyn ac y dylai Cyngor Gwynedd dderbyn cyfrifoldeb am y mater, er y byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon yn ddi-ragfarn gydweithio efo nhw os oedd angen.

## 5.3 Cyfethol Aelod

Mae hysbyseb wedi ei osod yn rhoi hawl i 10 etholwr ofyn i Gyngor Gwynedd fod etholiad yn cael ei gynnal am y sedd wag. Os na fydd 10 person wedi gofyn am etholiad erbyn 25 Mawrth yna gellir mynd ymlaen i hysbysebu am enwau i'w cyfethol.

## 6. MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Chwefror 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**6.2** 12 Chwefror 2021 – Taliad allan o'r banc PWLB, £406.35

**6.3** Ad-dalu'r Cynghorydd Gruffudd Williams am y wefan, 4 Chwefror 2021 - 4 Chwefror 2023, £221.35

**6.4** Balans yn y banc 28 Chwefror 2021 £28,253.84

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim.

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Cymeradwyo Asesiad Risg 2021/22

Awgrymwyd y dylai fod gan bob risg berchnogaeth, ac felly dylid ychwanegu colofn ychwanegol fel bod perchnogaeth y risg wedi ei nodi fel yn perthyn i'r Clerc neu i'r aelodau.

Os yw'r risg yn uchel iawn, yna dylai fod yna ddyddiad gweithredu.

## 9.2 Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am faw cŵn, Bontnewydd

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am faw cŵn ym Montnewydd, yn benodol ym maes chwarae Glan Beuno.

Eglurodd y Cynghorydd Peter Garlick ei fod wedi bod yn darparu biniau baw cŵn ei hun yn ardal Bontnewydd ers tua 2018 a hefyd yn eu gwagio'n wythnosol, ers i'r Cyngor Cymuned benderfynu yn 2018 i beidio ag ariannu'r biniau baw cŵn a'u gwagio eu hunain gan fod y gost yn ormodol.

Mae rhai o'r biniau wedi cael eu difrodi a does dim rhai newydd wedi cael eu gosod yn eu lle.

Mae yna un bin yng Nglanrafon a osodwyd gan Gyngor Gwynedd ac a wegir yn wythnosol gan Gyngor Gwynedd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddyn nhw osod biniau baw cŵn ym Montnewydd a chytuno i'w gwagio.

Gan fod y gwyn gan yr aelod o'r cyhoedd yn sôn yn benodol am broblem yng nghae chwarae Glan Beuno, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi'r broblem, ac yn gofyn i'r ffens o gwmpas y cae chwarae gael ei thrwsio, oherwydd fe gredir mai cŵn yn crwydro'n rhydd sy'n achosi'r broblem.

Yn ogystal, nid oes ffensiau ar gefn rhai o'r tai sy'n cefnu ar y maes chwarae, ac felly mae'n bosibl fod cŵn sy'n cael eu gollwng allan yn medru cerdded yn rhydd i mewn i'r maes chwarae. Credir mai ADRA sydd berchen y tai yma, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at ADRA gam nodi'r broblem.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – 1 Ebrill 2021, 7:00 yr hwyr**